Senedd Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

**1.** Cyflwynwyd y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy ("y Bil") i Dŷ'r Cyffredin ar 15 Mai 2025. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

**2.** Ar 9 Mehefin 2025, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar y Bil gerbron y Senedd. Gosododd hefyd ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (y Memorandwm Atodol) (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd ar 4 Tachwedd 2025 a 7 Ionawr 2026 yn y drefn honno. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memoranda i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad graffu arno a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad terfynol yw 20 Ionawr 2026.

**3.** Trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Memoranda yn ei gyfarfodydd ar 9 Gorffennaf 2025, 26 Tachwedd 2025 a 14 Ionawr 2026 yn y drefn honno.

## Amcanion polisi

**4.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei fod yn gwneud darpariaeth am danwydd hedfan cynaliadwy (SAF). Mae SAF yn derm eang am ddewisiadau amgen carbon is yn lle cerosin hedfan confensiynol. Amcan polisi'r Bil yw lleihau allyriadau hedfan sy'n niweidiol i'r amgylchedd drwy gefnogi cynhyrchu SAF. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o SAF, ar gyfartaledd, 70 y cant yn llai na'r rhai o danwydd jet ffosil. Disgrifir SAF fel 'tanwydd parod', sy'n golygu ei fod wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio ar gyfer awyrennau presennol heb addasu'r awyren.

**5.** Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cyflwyno'r 'mandad SAF', sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfuno isafswm cyfran o SAF i danwydd hedfan confensiynol. Ar hyn o bryd, rhaid i 2 y cant o gyfanswm y cymysgedd tanwydd hedfan fod yn SAF, gan godi i 10 y cant erbyn 2030 a 22 y cant erbyn 2040. Bydd hyn yn sbarduno'r galw am SAF.

**6.** Fodd bynnag, mae'r cyflenwad SAF yn y DU a ledled y byd yn gyfyngedig oherwydd bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gynhyrchu SAF ac mae'n peri risg mawr. Mae'r diwydiant hedfan yn nodi y bydd yn anodd bodloni gofynion y mandad SAF heb gymorth i fuddsoddi mewn cynnydd yn y SAF a gynhyrchir.

**7.** Mae'r Bil yn cyflwyno mecanwaith sicrwydd refeniw a fydd yn cefnogi cynhyrchu SAF drwy ddarparu pris sefydlog gwarantedig i gynhyrchwyr SAF ar gyfer SAF ("y pris streic"). Bwriad hyn yw rhoi hyder i fuddsoddwyr posibl mewn incwm yn y dyfodol. Bydd yn cael ei ariannu gan ddiwydiant, y bydd yn ofynnol iddo dalu ardoll y darperir ar ei chyfer yn y Bil. Mae hyn yn golygu y gallai cost y cynllun gael ei throsglwyddo i deithwyr awyr, neu y gallai cwmnïau hedfan ei hysgwyddo.

## Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn y Memorandwm

### Cymal 1 - Cyfarwyddyd i gynnig contract sicrwydd refeniw

**8.** Mae'r cymal yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo cwmni sy'n eiddo i'r llywodraeth (o'r enw'r 'gwrthbarti dynodedig' yn y Bil) i gynnig contract sicrwydd refeniw i gynhyrchydd SAF. Bydd y contract yn pennu 'pris streic' ar gyfer SAF am gyfnod penodol. Yna, os bydd y SAF a werthir gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod hwnnw yn cael ei werthu am lai na'r pris streic, bydd y gwrthbarti dynodedig yn talu'r gwahaniaeth i'r cynhyrchydd SAF. I'r gwrthwyneb, os bydd y cynhyrchydd SAF yn gwerthu SAF am bris sy'n uwch na'r pris streic yn ystod y cyfnod, bydd y cynhyrchydd yn talu'r swm uwchlaw'r pris streic i'r gwrthbarti dynodedig. Mae pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud cyfarwyddydau yn gyfyngedig o ran amser ac yn arferadwy am 10 mlynedd ar ôl pasio'r Ddeddf. Gellir estyn y cyfnod hwnnw, fodd bynnag, drwy reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

### Cymal 2 - Hysbysiad o gyfarwyddydau a dirymu

**9.** Mae'r cymal hwn yn darparu bod rhaid anfon cyfarwyddyd a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 1 at y cynhyrchydd a enwir ynddo. Mae hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddirymu cyfarwyddyd drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthbarti dynodedig a'r cynhyrchydd.

## Cymal 3 - Cofrestru a chyhoeddi contractau

**10.** Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r gwrthbarti dynodedig gynnal cofrestr o wybodaeth mewn perthynas â chontractau sicrwydd refeniw ac i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi manylion y contract.

## Cymal 4 - Dynodi gwrthbarti

**11.** Mae'r cymal hwn yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy hysbysiad, ddynodi cwmni yn wrthbarti ar gyfer contractau sicrwydd refeniw. Rhaid i'r cwmni fod yn gyfyngedig drwy gyfranddaliadau a rhaid i'r cyfranddaliadau hynny gael eu dal gan un o weinidogion y Goron. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddirymu dynodiad drwy hysbysiad.

## Cymal 5 - Cynlluniau trosglwyddo

**12.** Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, os caiff dynodiad gwrthbarti dynodedig ei ddirymu, i wneud cynllun ar gyfer trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau eiddo'r cwmni i wrthbarti dynodedig newydd. Caiff cynllun gynnwys iawndal i unrhyw berson y mae'r trosglwyddiad yn effeithio'n andwyol arno.

## Cymal 6 - Ardoll ar gyflenwyr

**13.** Mae cymal 6 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr tanwydd hedfan dalu ardoll y caiff y gwrthbarti ei defnyddio i dalu costau yr eir iddynt o dan y Bil, gan gynnwys taliadau a wneir o dan y mecanwaith sicrwydd refeniw.

## Cymal 7 - Cyllid cyfochrog ar gyfer ardoll

**14.** Mae cymal 7 yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 6 ei gwneud yn ofynnol i berson dalu cyllid cyfochrog i'r gwrthbarti dynodedig mewn cysylltiad â'i atebolrwydd i dalu'r ardoll.

## Cymal 8 - Gweinyddu etc ardoll ac anghydfodau

**15.** Mae'r cymal hwn yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan gymal 6 roi swyddogaethau i'r gwrthbarti dynodedig mewn cysylltiad â gweinyddu a gorfodi'r rheoliadau.

## Cymal 9 - Cyfrifo neu benderfynu materion o dan reoliadau ardoll

**16.** Mae'r cymal hwn yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan gymal 7 ddirprwyo penderfyniadau penodol, megis cyfrifiadau neu benderfyniadau o dan y rheoliadau, i berson arall.

## Cymal 10 - Talu cyllid dros ben i dalwyr ardoll

**17.** Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r gwrthbarti dynodedig dalu unrhyw gyllid dros ben sydd ganddo i'r cyflenwyr tanwydd hedfan a oedd wedi talu'r ardoll o'r blaen. Gall rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol defnyddio unrhyw gyllid dros ben a wneir i gynhyrchydd SAF er budd cwsmeriaid y cynhyrchydd. Os yw'r rheoliadau arfaethedig yn cynnwys darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau.

## Cymal 11 - Cosbau ariannol

**18.** Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i osod cosb ariannol o hyd at £100,000.00 ar berson sy'n torri'r rheoliadau ardoll. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer cosbau ariannol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gosod cosb ariannol ar berson, gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'r bwriad hwnnw i'r person. Rhaid i'r hysbysiad nodi swm y gosb arfaethedig, y rhesymau drosti a hawl y person i wneud sylwadau yn erbyn y gosb arfaethedig i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae paragraff 5 o Atodlen 1 yn darparu y caiff person y cyflwynir hysbysiad cosb ariannol iddo hefyd apelio yn ei erbyn i'r Uchel Lys.

## Cymal 12 - Pŵer i gyfarwyddo gwrthbarti dynodedig

**19.** Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi cyfarwyddyd i'r gwrthbarti dynodedig ynghylch arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r gwrthbarti dynodedig.

## Cymal 13 - Gwybodaeth a chyngor

**20.** Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthbarti dynodedig ddarparu i'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw wybodaeth a chymorth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo amdanynt.

### Cymal 14 - Cymorth ariannol ar gyfer gwrthbarti dynodedig

**21.** Mae'r cymal hwn yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu cymorth ariannol i'r gwrthbarti dynodedig ac y caiff osod amodau ar roi cymorth o'r fath.

### Cymal 15 - Rheoliadau

**22.** Mae'r cymal hwn yn darparu bod yr holl bwerau gwneud rheoliadau yn y bil yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth drosiannol, neu ddarpariaeth arbed.

## Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn y Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 2)

**23.** Mae'r Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 2) yn nodi gwelliannau a wnaed yn ystod Cyfnod Adnodd Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

### Cymal 1 - Cyfarwyddyd i gynnig contract sicrwydd refeniw

**24.** Mae cymal 1 wedi'i ddiwygio i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo cwmni sy'n eiddo i'r llywodraeth i ddarparu cymorth i nodi cynhyrchwyr tanwydd hedfan cynaliadwy y dylid dyrannu contractau sicrwydd refeniw iddynt.

### Cymal 6 - ardoll ar gyflenwyr

**25.** Mae cymal 6 wedi'i ddiwygio i ddarparu na fydd yr ardoll ar gyflenwyr yn ariannu unrhyw gostau a ysgwyddir wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan gymal 1(5) newydd.

### Cymal 8 - Gweinyddu etc ardoll ac anghydfodau

**26.** Mae cymal 8 wedi'i ddiwygio i ganiatáu i reoliadau'r ardoll ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynorthwyo i gasglu a darparu gwybodaeth a gosod gofynion ar bobl i ddarparu'r wybodaeth honno.

## Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn y Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 3)

**27.** Mae'r Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 3) yn nodi gwelliannau a wnaed yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

### Cymal 10 – Talu cyllid dros ben i dalwyr ardoll

**28.** Mae cymal 10 wedi'i ddiwygio i ddileu'r gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd).

### Cymal newydd 15 – Dyletswydd i ymgynghori ynghylch rheoliadau

**29.** Mae cymal newydd 15 a fewnosodwyd drwy welliant yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, a hynny cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan gymal 1, 3, 10 neu 11 o'r Bil.

## Barn ar yr angen am gydsyniad

**30.** Mae'r Memorandwm yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 15 (yn y Bil fel y'i cyflwynwyd). Mae'r Memorandwm yn nodi mai barn wahanol sydd gan Lywodraeth y DU ac mae'n ystyried bod cymalau 1 i 5 a 10 i 19 (yn y Bil fel y'i cyflwynwyd) o fewn cymhwysedd y Senedd.

**31.** Mae'r Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 2) yn nodi mai safbwynt Llywodraeth y DU yw bod "yr holl welliannau yn dechnegol eu natur ac nad oes angen SLCM [Memorandwm Atodol]". Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu fel a ganlyn:

> *"bod dadl gryfach bod y gwelliannau…yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf mewn perthynas â Chymru sy'n ymdrin â materion datganoledig. Ystyrir felly fod angen SLCM mewn perthynas â'r gwelliannau hynny".*

**32.** Mae'r Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 3) yn nodi mai safbwynt Llywodraeth y DU yw bod y gwelliannau "yn fân welliannau nad ydynt yn effeithio ar gyflawni ac felly nid oes angen SLCM". Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu fel a ganlyn:

> *"mai'r ddadl gryfach yw bod y diwygiadau…yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf, mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, gan eu bod yn rhoi neu'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Ystyrir felly fod angen SLCM mewn perthynas â'r dau welliant hynny."*

## Rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth yn y Bil

**33.** Mae'r Memoranda yn nodi rhesymau'r Ysgrifennydd Cabinet dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil hwn:

*"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau o ran [l]leihau allyriadau. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'n heriau byd-eang mwyaf ac mae hyn yn gofyn am weithredu ar lefel y DU gyfan trwy Fil ar gyfer y DU. Bwriad y mecanwaith sicrwydd refeniw SAF a gyflwynwyd fel rhan o'r Bil yw bod yn fesur cyfyngedig o ran amser i ysgogi marchnad gynnar ar gyfer SAF. Ni fydd ei angen mwyach unwaith y bydd gan fuddsoddwyr hyder ym mhris y farchnad a bod y dechnoleg gyntaf o'r fath wedi profi ei hun ar raddfa fasnachol. Rydym [yn] ystyried SAF fel ateb dros dro i leihau carbon, wrth i'r diwydiant edrych ar ddatblygu awyrennau allyriadau sero, fel awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan."*

## Ein barn ni

Rydym wedi ystyried cymalau 1-16 (o’r Bil fel y’i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ’r Arglwyddi), y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rydym yn croesawu cymal newydd 15 (a fewnosodwyd drwy welliant yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ’r Arglwyddi), a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau.

O ran bwriad polisi’r darpariaethau, nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai’r Senedd roi cydsyniad.

O ran mater ehangach, cawsom lai nag wythnos i drafod Memorandwm Rhif 3 a chyflwyno adroddiad arno, ac nid yw hyn yn dderbyniol o gwbl. Rydym wedi mynegi ein barn yn glir o’r blaen fod angen sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau graffu a chyflwyno adroddiad ar Femoranda. Rydym yn pwysleisio’r farn honno.